



## Gofal o dan yr Enfys

Deunyddiau dysgu ar-lein er mwyn gwneud cartrefi gofal yn fwy cynhwysol i bobl LHDT+ hŷn.

14.05.19

Annwyl uwch aelod o staff / rheolwr cartref,

Rydych chi'n cael y pecyn yma yn y post er mwyn i ni eich cyflwyno chi i adnodd dysgu newydd, 'Gofal o dan yr Enfys' [<https://www.diversitytrust.org.uk/careunderrainbow/>]. Adnodd ar-lein newydd yw hwn sydd wedi'i greu er mwyn hybu'r gwaith o gynnwys pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws (LHDT+) hŷn sydd mewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio yng Nghymru a Lloegr. Nod yr adnodd yma yw rhoi'r offer i reolwyr a thimau staff arwain trafodaethau a sesiynau addysgol am bwysigrwydd hybu cydraddoldeb rhwng preswylwyr a rhoi gwerth ar amrywiaeth ymhlith staff a phreswylwyr. Dyma wahoddiad i chi fynd i'r wefan a bwrw golwg ar yr offer sydd ar gael ar-lein:

<https://www.diversitytrust.org.uk/careunderrainbow/>

Mae'r offer yn cynnwys:

1. Pedair ffilm fer sy'n trafod cynnwys preswylwyr LHDT+, gyda safbwyntiau staff a rheolwyr cartrefi gofal, a safbwyntiau oedolion LHDT+ hŷn (sef 60+ oed) ar y pwnc yma.
2. Astudiaethau achos – pum astudiaeth achos sydd wedi'u creu i ysgogi trafodaeth ynghylch sut i greu amgylchedd cynhwysol ar gyfer pobl LHDT+ hŷn sy'n arddel gwahanol hunaniaethau.
3. Cyngor ar hybu cynhwysiant a chydaddoldeb mewn cartrefi gofal ar gyfer preswylwyr LHDT+.
4. Pethau y gallwch chi eu gwneud er mwyn gwneud eich cartref gofal yn fwy cynhwysol i breswylwyr LHDT+ hŷn.
5. Amserlen gyfreithiol yn tynnu sylw at newidiadau allweddol o ran polisi a'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r dogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r adnodd yma wedi cael ei gyd-ddylunio gan bobl LHDT+ gyda phobl LHDT+ hŷn ac mae'n gywaith rhwng yr Ysgol Astudiaethau Polisi ym Mhrifysgol Bryste a'r Ymddiriedolaeth Amrywiaeth CIC. Wrth ddatblygu'r adnodd yma, rydyn ni wedi ymgynghori â chynrychiolwyr o amrywiaeth eang o asiantaethau gan gynnwys Sgiliau Gofal a Stonewall Cymru, ac mae'r negeseuon yn yr offer wedi'u seilio ar ymchwil, sydd wedi'i gynnal yng Nghymru a Lloegr yn ddiweddar, ar y pwnc yma.

Dyma rai ffyrdd y gallech ddefnyddio'r offer:

- Cyfarfod tîm staff – gwylwch un neu ddwy o’r ffilmiau gyda’i gilydd a/neu trafodwch un neu ddwy o’r astudiaethau achos er mwyn ysgogi trafodaeth am bwysigrwydd parch tuag at gydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith preswylwyr.
- Ymarferiad recriwtio – defnyddiwch un o’r astudiaethau achos mewn cyfweiliadau gydag aelodau newydd o staff fel ffordd o asesu agweddau a gwerthoedd ymgeiswyr.
- Cynefino – gofynnwch i staff newydd wyllo’r ffilmiau a darllen y dogfennau ar-lein ac yna trafodwch un neu ddwy o’r astudiaethau achos gyda’i gilydd i asesu sut y byddai aelodau newydd o staff yn ymateb i breswylwyr o gefndiroedd tebyg.
- Datblygiad proffesiynol parhaus – trefnwch sesiwn hyfforddi hanner diwrnod ar gyfer yr holl staff. Dechreuwch drwy wyllo’r ffilmiau gyda’i gilydd, profi gwybodaeth y cyfranogwyr o’r gyfraith gyda’r llinell amser gyfreithiol (e.e. cwis cyflym) a gorffennwch gyda thrafodaeth am yr astudiaethau achos mewn parau neu grwpiau bach o 3-4 o gyfranogwyr.
- Gwahoddwch y staff i fynd i’r wefan – Rhowch y cerdyn post sydd wedi’i gynnwys yn yr amlen yma ar hysbysfwrdd mewn lle amlwg i’r holl staff a phreswylwyr ei weld.

Gobeithio’n fawr eich bod yn gweld gwerth yr adnodd yma ar gyfer datblygu sgiliau a dysg parhaus eich tîm o staff ac fel ffordd o gefnogi eich tîm i greu amgylchedd cydradd a chynhwysol i’r holl breswylwyr. Fe hoffen ni gysylltu â chi unwaith eto mewn chwe mis er mwyn cael clywed unrhyw sylwadau sydd gennych i’w rhannu.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr adnodd yma neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â Dr Paul Willis drwy e-bostio [paul.willis@bristol.ac.uk](mailto:paul.willis@bristol.ac.uk) neu drwy ffonio 0117 3310640. Mae Paul yn gweithio yn yr Ysgol Astudiaethau Polisi ym Mhrifysgol Bryste.

Cofion cynnes,

Paul Willis, Berkeley Wilde a Wenjing Zhang  
Tîm prosiect ‘Gofal o dan yr Enfys’.

**Cyllid:** Mae’r prosiect a’r adnodd yma wedi’u hariannu drwy grant gan Gyfrif Cyflymu Effaith y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, sydd wedi’i ddal gan Brifysgol Bryste, 2018-19. Cywaith ar y cyd rhwng Prifysgol Bryste a’r Ymddiriedolaeth Amrywiaeth CIC yw’r prosiect yma.